

# CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 11 HYDREF 2023

**YN BRESENNOL:** Councillor B.A.L. Roberts (Cadeirydd) (Yn y Siambr).

### Y Cynghorwyr (Yn y Siambr):

D.M. Cundy	C.A. Davies	G. Davies	H.L. Davies
L. Davies	T. Davies	H.A.L. Evans	L.D. Evans
S. Godfrey-Coles	T.M. Higgins	J.K. Howell	P. Hughes-Griffiths
J.D. James	M. James	R. James	G.H. John
A.C. Jones	D. Jones	H. Jones	A. Lenny
M.J.A. Lewis	N. Lewis	D. Nicholas	M. Palfreman
D. Price	E. Rees	H.B. Shepardson	E. Skinner
R. Sparks	D. Thomas	E.G. Thomas	M. Thomas
A. Vaughan Owen			

### Y Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.M. Allen	L.R. Bowen	K.V. Broom	J.M. Charles
M.D. Cranham	S.A. Curry	A. Davies	W.R.A. Davies
T.A.J. Davies	C. Davies	LI.M. Davies	S.L. Davies
M. Donoghue	A. Evans	D.C. Evans	N. Evans
R.E. Evans	W.T. Evans	A.D. Harries	B.W. Jones
A. Leyshon	A.G. Morgan	D. Owen	B.D.J. Phillips
S.L. Rees	E.M.J.G. Schiavone	J. Seward	G.B. Thomas
F. Walters	P.T. Warlow	D.E. Williams	J. Williams

### Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

W. Walters, Prif Weithredwr;  
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;  
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;  
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);  
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;  
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;  
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;  
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;  
A. Edwards, Rheolwr y Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil;  
G. Jones, Rheolwr Rhaglen Ddigidol;  
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau;  
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet;  
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;  
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

### Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau.

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 12.03 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbydiwyd ymddiheuridadau am absendoldeb gan y Cynghorwyr P. Cooper, B. Davies, J. Hart, P.M. Hughes, G. Jones, K. Madge a J. Tremlett.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
S. Davies	11.1 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorwyr Linda Evans ac Edward Thomas	Gweithio i Dolen Teifi – gollyngiad i siarad ond nid pleidleisio

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

- Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi ymweld â Mrs Dilys Rees, mam y cyn-Gynghorydd Mair Stephens, ar ei phen-blwydd yn 100 oed, ac roedd yn wir ysbrydoliaeth.
- Cyhoeddodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu *Loud Applause Rising Stars (LARS)* yn y Ffwrnes, Llanelli, a oedd yn noson wych yng nghwmni ieuenctid Sir Gaerfyrddin.
- Ar ôl i'r Cadeirydd estyn gwahoddiad iddynt wneud, bu i'r Cynghorwyr canlynol annerch y Cyngor:-
  - Galwodd y Cynghorydd Ann Davies ar i'r Aelodau feddwl am y rheiny oedd wedi dioddef o ganlyniad i'r sefyllfa yn Israel dros y dyddiau diwethaf. Dywedodd fod y Cyngor Sir wedi ymrwymo i heddwch a chydaddoldeb a siaradodd yn erbyn anghyfiawnder a thrais. Y gobaith oedd y gellid dod o hyd i ateb cyflym er mwyn rhoi cyfle i heddwch yn y dyfodol. Er parch at yr holl deuluoedd cysylltiedig yr oedd yr anghyfiawnder hwn wedi effeithio arnynt, safodd y Cyngor mewn myfyrdod.
  - Bu i'r Cynghorydd Sean Rees, ar ran Aelodau Ward Glan-y-môr, longyfarch Clwb Bowlio Havelock yn y Morfa a oedd wedi ennill cyfanswm o 6 thlws mewn tymor hynod lwyddiannus. Roedd y Clwb wedi cael ei goroni'n Bencampwyr yr Uwch Gynghrair, a Howard Griffiths a Phil Nicolas oedd Pencampwyr y Parau. Rob Hughes, Leigh Moses a Chris Spriggs oedd Pencampwyr y Tripled. Yn ogystal, fe wnaeth Mr Spriggs gynrychioli tîm Cymru yn y gystadleuaeth Bowls Lawnt Para yng Ngemau'r Gymanwlad y llynedd. Roedd Mr Spriggs yn ysbrydoliaeth i bawb wrth hyrwyddo chwaraeon anabled yn ein cymuned.

#### **4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Rhoddodd yr Arweinydd y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau yng Ngwesty Parc y Strade. Cyfeiriwyd at ddatganiad Llywodraeth y DU ddoe ynghylch ei bwriad i dynnu'n ôl y cynlluniau i ddefnyddio Gwesty Parc y Strade yn llety i Geiswyr Lloches. Croesawyd hyn yn fawr gan mai'r farn oedd fod y safle'n anaddas.

Dywedodd yr Arweinydd fod llythyrau yn mynegi sylwadau ar y mater hwn wedi bod yn cael eu hanfon i Lywodraeth y DU ers Mai 2023. Soniwyd bod y Prif Weithredwr a'r Arweinydd wedi ysgrifennu at weision sifil a'r Gweinidog yn y Swyddfa Gartref yn mynegi pryderon difrifol ynghylch tensiynau yn y gymuned, a oedd wedi bod ar gynnydd dros yr wythnosau diwethaf.

Er i Lywodraeth y DU gydnabod na fyddai'r model arfaethedig yn addas nac yn briodol ar gyfer y safle, roedd yn destun siom bod 6 mis wedi mynd heibio cyn i'r Llywodraeth ddod i benderfyniad i dynnu'n ôl ei bwriad ar gyfer Gwesty Parc y Strade. Roedd y mater hwn wedi effeithio'n sylweddol ar gymuned Llanelli dros y 6 mis diwethaf wrth i 95 o swyddi gael eu colli ym mis Gorffennaf eleni, ynghyd ag ased dwristiaeth allweddol ar ffurf gwesty 4\*.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyngor hwn, dan arweiniad y Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth y Tîm Rheoli Corfforaethol a Swyddogion Cynllunio, y Gyfraith, Adfywio, Gorfodi a llawer o Swyddogion eraill a oedd wedi gweithio'n ddiflino ac wedi mynd y filltir ychwanegol er mwyn canfod datrysiad a gefnogai ddymuniadau pobl Ffwrnes a Llanelli.

Yn ogystal, diolchwyd am y gefnogaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi cefnogi safbwynt y Cyngor. Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol lawer i waith drwy gydol y mater hwn. Fodd bynnag, roedd am nodi nad oedd cyfle wedi cael ei roi iddo drafod y mater gyda'r Gweinidog yn Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am gynnig y fath fwriad. Roedd gwrthwynebiad y Cyngor hwn a Llywodraeth Cymru wedi cael ei fynegi'n gyson i Lywodraeth y DU.

I gloi, pwysleisiodd yr Arweinydd fod gan y Cyngor hwn hanes balch o groesawu a chefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i Sir Gaerfyrddin dros y blynyddoedd ac y byddai'n parhau i wneud hynny.

Bu i'r Cadeirydd wneud eithriad drwy ganiatáu i'r aelodau lleol siarad adeg cyhoeddiadau'r Arweinydd.

Ategodd y Cynghorydd Palfreman ddatganiad yr Arweinydd a byddai'r newyddion da yn rhyddhad i'r gymuned. Dymunai ddiolch i'r Arweinydd a nifer o Swyddogion y Cyngor a oedd wedi dadlau'n gyson yn erbyn y cynigion ac wedi helpu aelodau lleol i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth ymarferol i'r trigolion yr effeithiwyd arnynt. At hynny, bu i'r Cynghorydd Palfreman gyfleu ei ddiolch personol i Nia Griffiths, Aelod Seneddol, a Lee Waters, Aelod o'r Senedd, a oedd wedi sefyll eu tir yn gadarn dros bobl Llanelli.

Roedd y Cynghorydd Skinner, wrth ddweud gair am y newyddion oedd i'w groesawu, am ddiolch i'r Prif Weithredwr a Swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin, Heddlu Dyfed-Powys a Phwyllgor Gweithredu'r Ffwrnes.

**5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR 13 MEDI 2023**

**PENDERFYNWYD** llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Medi 2023 yn gofnod cywir.

**6. AROLYGIAD ESTYN O WASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL SIR GAERFYRDDIN**

Cafodd y Cyngor adroddiad am Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol Sir Gaerfyrddin a'r meysydd oedd angen eu datblygu.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth mewn perthynas ag Arolygiad Estyn ac roedd adroddiad terfynol Estyn wedi'i atodi. Cynhaliwyd yr ymweliad rhagarweiniol ar 22 a 23 Mehefin. Cynhaliwyd cyfweiliadau gydag amryw randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr penaethiaid ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig; cynrychiolwyr Cadeiryddion Llywodraethwyr ar draws ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig; y bartneriaeth addysg ranbarthol, Partneriaeth; cynrychiolwyr yr undebau llafur; esgobaeth; y bwrdd iechyd lleol; rhieni a swyddogion o Gyfarwyddiaethau eraill yr Awdurdod Lleol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 27 Medi 2023 ac roedd wedi nodi llawer o gryfderau a nodweddion nodedig. Nododd y Cyngor y tri argymhelliad canlynol a wnaed:

- A1 Gwella presenoldeb disgyblion yn ysgolion yr awdurdod;
- A2 Cryfhau prosesau gwella ysgolion, yn enwedig ar gyfer ysgolion uwchradd;
- A3 Mireinio ymagweddau at hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.

Wrth gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg mai pleser oedd cyflwyno'r adroddiad gwych, a'i fod yn ymfalchio yng ngwaith clodwiw Gwasanaethau Addysg Sir Gâr ac yn ddiolchgar i'r holl staff, ysgolion a disgyblion am eu hymdrechion, a oedd yn cael eu cydnabod yn yr adroddiad trwyadl hwn gan Estyn. Roedd yr adroddiad yn nodi bod y weledigaeth a'r arweinyddiaeth strategol yn Sir Gaerfyrddin yn glir ac yn bendant, fel bod ein plant a'n pobl ifanc yn gallu cael yr addysg orau posibl.

Diolchwyd i'r staff addysg oedd yn bresennol a'r holl swyddogion cysylltiedig am eu gwaith parhaus a oedd wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol.

**PENDERFYNWYD:**

**6.1 derbyn yr adroddiad am Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol Sir Gaerfyrddin;**

**6.2 nodi'r sefyllfa bresennol a'r trefniadau oedd ar waith i fynd i'r afael â'r argymhellion a'r ychydig feysydd roedd angen eu gwella.**

## **7. ADOLYGIAD CYMUNEDOL DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU) 2013 ("Y DDEDDF")**

Bu i'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2023 (gweler cofnod 7), gymeradwyo cychwyn Adolygiad Cymunedol i archwilio'r trefniadau llywodraethu Tref a Chymuned presennol ac i wneud Argymhellion Terfynol ar gyfer unrhyw newid priodol.

Roedd gan y Cyngor ddyletswydd o dan adran 22 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") i adrodd bob deng mlynedd ar adolygiad cymunedol gan ystyried amserlen Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer cynnal yr adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd sy'n ofynnol gan adran 29 (1) o'r Ddeddf. Cynhaliwyd yr adolygiad etholiadol diwethaf gan y Comisiwn hwn yn 2021.

Roedd y cyfnod ymgynghori ffurfiol wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, ond roedd ymgyrch ymgysylltu a dargedwyd hefyd wedi'i chynnal. Gwahoddwyd sylwadau o ddydd Llun 13 Mawrth i ddydd Llun 24 Ebrill 2023. Derbyniwyd 24 o sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac adolygwyd y rhain a pharatowyd cynigion ar gyfer Argymhellion Drafft. Roedd Atodiad 1 i'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ddaeth i law a'r cynigion ar gyfer Argymhellion Drafft a ddeilliai o'r rhain.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, nodwyd bod anghysonderau o ran ffiniau cymunedol, a atodwyd i'r adroddiad yn Atodiad B.

### **PENDERFYNWYD:**

**7.1 Bod y cynigion a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael eu mabwysiadu fel Argymhellion Terfynol at ddibenion yr Adolygiad Cymunedol.**

**7.2 Cytuno ar adolygiad pellach dan Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ar gyfer y canlynol:**

- a) Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Gwledig Llanelli**
- b) Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Cymuned Trimsaran**
- c) Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Cymuned Pontyberem**

## **8. ADOLYGIAD O DDOSBARTHOU PLEIDLEISIO A MANNAU PLEIDLEISIO 2023**

Cafodd y Cyngor adroddiad am Adolygiad Dosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio 2023. Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer cynlluniau am adolygiad statudol o ddosbarthau pleidleisio a manau pleidleisio yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a Rheoliadau Adolygu Dosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006 gynnal adolygiad gorfodol bob 5 mlynedd. Rhaid cynnal yr adolygiad nesaf o fewn cyfnod o 16 mis oedd yn dechrau ar 1 Hydref 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnig bod yr adolygiad gorfodol o ddosbarthau pleidleisio a manau pleidleisio yn dechrau ddydd Iau 12 Hydref 2023.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys amserlen arfaethedig ar gyfer yr adolygiad yr oedd idd yn argymhell ei gymeradwyo.

Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth a chynigion mewn perthynas â gweithredu newidiadau i ffiniau seneddol a gweithredu newidiadau i ddsbarthau pleidleisio.

#### **PENDERFYNWYD:**

- 8.1 bod yr adolygiad gorfodol o ddsbarthau pleidleisio a manau pleidleisio yn dechrau ddydd lau 12 Hydref 2023;
- 8.2 cymeradwyo'r amserlen amlinellol ar gyfer yr adolygiad;
- 8.3 cymeradwyo dilyn y broses adolygu a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn;
- 8.4 bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael ei awdurdodi i gymryd y mesurau angenrheidiol cyn gynted â phosibl i roi newidiadau etholaethol seneddol ar waith, gan sicrhau bod y gofrestr yn adlewyrchu etholaethau presennol a newydd, hyd nes bod y ffiniau yn gwbl weithredol;
- 8.5 bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael ei awdurdodi i gymryd y mesurau angenrheidiol i weithredu unrhyw ddsbarthau pleidleisio newydd neu ddiwygiedig ar ôl cwblhau'r adolygiad o'r ddsbarthau pleidleisio, gan sicrhau bod y gofrestr yn adlewyrchu'r ffiniau presennol a newydd, hyd nes bod y ffiniau yn gwbl weithredol;
- 8.5 bod y pŵer i ddynodi manau pleidleisio yn unol ag adran 18 a 18A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn cael ei ddirprwyo i'r Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol - dim ond pan fo angen penderfyniad ar fyr rybudd y mae'r pŵer hwnnw i'w arfer, pan nad yw'n bosibl aros am benderfyniad gan y Cyngor.

#### **9. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN Y MATER CANLYNOL:-**

##### **9.1. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGHYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2022-2023**

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2023 (gweler cofnod 6), wedi ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth ar gyfer 2021-22.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:

**“bod Adroddiad Blynyddol 2022/23 ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth yn cael ei fabwysiadu.”**

#### **10. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y 18FED MEDI 2023**

**PENDERFYNWYD** derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2023.

## 11. YSTYRIED Y RHYBUDD O GYNNIG CANLYNOL:-

### 11.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR LINDA EVANS & EDWARD THOMAS

[Sylwer: Gan iddi ddatgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ailddatganodd y Cynghorydd S. Davies ei buddiant a dweud bod ganddi ollyngiad i siarad ond nid pleidleisio ar yr eitem hon].

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Linda Evans ac Edward Thomas:-

“Mae'r Cyngor yn nodi bod gwasanaeth Bwcabus fflecsi wedi bod mewn bodolaeth ers 14 mlynedd gan roi cyfle hollbwysig i bobl deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn rhai o ardaloedd mwyaf gwledig Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r Cyngor yn mynegi ei siomedigaeth ynghylch cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y bydd y gwasanaeth yn dod i ben ar 31 Hydref 2023, a fydd yn ergyd sylweddol i'n cymunedau gwledig. Testun gofid i'r Cyngor yw'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi trefnu bysiau newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn mor ddiweddar â mis Gorffennaf 2023. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau unigryw sy'n wynebu cymunedau gwledig o ran cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, ac yn ailddatgan ei ymrwymiad i weithio i wella gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus a chymunedol ledled y Sir.

Galwa'r Cyngor hwn ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei phenderfyniad, i weithio gydag awdurdodau lleol yng Ngorllewin Cymru, ac i ddarparu cyllid er mwyn datblygu system trafndiaeth gyhoeddus a chymunedol gynaliadwy a all gefnogi a chysylltu ein cymunedau gwledig. Yn y cyfamser, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau gyda gwasanaeth Bwcabus Fflecsi nes bod gwasanaeth arall ar waith ar gyfer ein hardaloedd gwledig.”

Eiliwyd y cynnig.

Rhodddwyd cyfle i gynigwyr ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

**PENDERFYNODD y Cyngor gefnogi'r Cynnig.**

## 12. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 13. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-

### 13.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD RUSSELL SPARKS I'R CYNGHORYDD LINDA EVANS, DIRPRWY ARWEINYDD AC AELOD Y CABINET DROS GARTREFI

#### Cwestiwn gan y Cynghorydd Sparkes:

“A allech chi roi gwybod i mi am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at ddatgarboneiddio ein stoc dai yn sgil datgan argyfwng hinsawdd yn 2019 ac ymrwymiad y Cyngor hwn i ddyfodol gwell i'n plant. Yn benodol, beth yw'r prif bethau sy'n eich rhwystro rhag cyflawni 'sero net' mewn perthynas â stoc dai'r Cyngor, a fydd yn y pen draw yn helpu i leihau biliau i breswylwyr o ystyried yr argyfwng costau byw parhaus?”

#### Ymateb gan y Cynghorydd Evans:

“Fe wna' i egluro lle rydym arni ar hyn o bryd. Fel y gwyddoch ac fel y nodir yn ein cynllun busnes ar gyfer 2023/24, ein nod fel adran yw gwneud ein cartrefi mor effeithlon â phosib o ran ynni a chyflawni tystysgrif perfformiad ynni Band C man lleiaf cyn gynted â phosib. Bydd datgarboneiddio ein stoc o gartrefi a lleihau ein hallyriadau carbon yn ffocws strategol i ni am y blynyddoedd i ddod. Mae 3,000 o'n cartrefi ym Mand C neu uwch o ran Tystysgrif Perfformiad Ynni eisoes, gyda bron i 5,800 o gartrefi ym Mand D gyda lefel SAP o 66 sydd ychydig yn uwch na'r safon a osodwyd yn Safon Ansawdd Tai Cymru ac rwy'n credu taw 65 yw honno ar hyn o bryd. Er mwyn cyrraedd y nod, i ddechrau, mae gwella ffabrig ein cartrefi yn hanfodol, hefyd mae angen i ni gael gwres carbon isel a thechnoleg adnewyddadwy.

Mae'r her yn enfawr ond mae'n rhaid i ni wneud popeth yn ein gallu i ddatgarboneiddio ein stoc o gartrefi a fydd o fudd i'r amgylchedd ac i'n tenantiaid. Fel y gwyddoch, mae ein rhaglen adeiladu newydd wedi gwthio'r ffiniau ar gyfer tai cymdeithasol trwy ddarparu cartrefi sy'n isel mewn carbon ac yn effeithiol mewn perthynas ag ynni ac wrth i ni barhau i adeiladu, byddwn yn parhau i wthio'r ffiniau hynny. Rydym yn defnyddio'r un dull pan fyddwn yn darparu cartrefi newydd i bobl drwy ailddatblygu adeiladau masnachol presennol mewn cartrefi effeithiol a modern, gan ddefnyddio'r dull ffabrig yn gyntaf a defnyddio technolegau adnewyddadwy i ddarparu amgylchedd byw fforddiadwy a chyfforddus i'n tenantiaid. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn defnyddio'r un dull wrth wneud gwaith ôl-ffitio ar ein stoc dai bresennol. Rydym eisoes wedi gwneud gwaith ôl-ffitio llawn ar rai o'n cartrefi sy'n golygu bod safon y cartrefi yr un fath â'n cartrefi newydd. Rydym yn gosod offer monitro yn y cartrefi er mwyn ein galluogi i fesur effaith perfformiad. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gwaith rydym yn ei wneud i'n cartrefi yn bodloni disgwyliadau ein model data ac yn bwysicach, bod ein tenantiaid yn elwa.



Eleni rydym yn parhau â'r gwaith. Rydym ar hyn o bryd yn manteisio ar y cyfle i wneud gwaith ôl-ffitio ar ganran o'n tai gwag, ac am y tro cyntaf rydym yn gweithio ar gartrefi y mae tenantiaid yn byw ynddynt ar hyn o bryd, sydd wrth gwrs yn cyflwyno heriau ychwanegol. Mae hyn yn bwysig wrth i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol ac er mwyn deall yn well yr hyn y gallwn ei gyflawni ar gyfer ein stoc dai a dysgu gwersi pwysig am effaith y gwaith hwn ar denantiaid, ar gostau, ar sgiliau a'r llafur sy'n ofynnol ac wrth gwrs, effeithiolrwydd y mesurau a gymerwyd. Mae'n rhaid i ni wneud hyn wrth symud ymlaen fel y gallwn ddysgu oherwydd mae'n rhaid i ni ei gael yn iawn. Erbyn hyn mae gennym ddealltwriaeth dda o'n cyfraddau perfformiad ynni.

Ar hyn o bryd, rydym yn dadansoddi ein data ar gyflwr stoc er mwyn datblygu ein rhaglen waith buddsoddi am y pum mlynedd nesaf. Bydd hyn i gyd yn cael ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2024/25. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn sy'n mynd i lwyddo i'n cartrefi, ac wrth gwrs mae'n rhaid i ni gofio bod ein stoc o gartrefi wedi cael eu hadeiladu dros gyfnod o ddegawdau ac na fydd un dechnoleg yn berthnasol i bob cartref. Os symudaf ymlaen i ail ran y cwestiwn - oes unrhyw rwystrau? Oes, mae rhwystrau y mae'n rhaid i ni eu goresgyn. Rwy'n hynod falch bod Llywodraeth Cymru eleni wedi cyhoeddi fersiwn drafft o Safon Ansawdd Tai newydd Cymru at ddibenion ymgynghori. Dyma'r llawlyfr i Awdurdodau Lleol o ran safonau a chysondeb ar gyfer cartrefi yng Nghymru am y blynyddoedd i ddod. Mae'n rhaid i mi gyfaddef ei fod wedi cymryd cryn amser i'n cyrraedd ni, ond rwy'n gobeithio y bydd y papur terfynol yn ei le yn fuan.

Yn ôl y disgwyl, bydd datgarboneiddio ein cartrefi yn rhan fawr o'r Safonau newydd ac fel y soniais yn gynharach, rydym eisoes wedi dechrau ar y daith hon ond mae'n rhaid i ni gael canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru ar gyllid ar gyfer y dyfodol er mwyn cyrraedd y Safonau yn llawn. Mae heriau mewn perthynas â chost uchel i wella ffabrig ein holl gartrefi - gosod paneli solar PV ac ati, ac wrth gwrs bydd yn rhaid i'r gwaith arferol o ddarparu toeau a ffenestri newydd ac ati yn parhau fel y mae ar hyn o bryd ac felly bydd cost ychwanegol. Hyd yn hyn, rydym wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus am ystod o grantiau ond bydd canllawiau clir ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd pendant i ni wrth i ni symud ymlaen. Wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt, gallai capasiti cyfyngedig y grid cenedlaethol fod yn broblem wrth i ni ddibynnu mwyfwy ar systemau trydanol yn ein cartrefi er mwyn ymladd yn erbyn yr allyriadau carbon. Gan ddefnyddio deunyddiau sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol, mae hyn yn bwysig i ni fel sir. Mae diffyg cynhyrchwyr lleol mewn perthynas â deunyddiau ac rwy'n gobeithio y bydd hyn yn newid yn y dyfodol. Ac wrth gwrs, wrth i'r angen am ddeunyddiau a thechnoleg gynyddu felly hefyd bydd y sgiliau a'r galw am grefftwyr arbenigol.

Felly dyna lle'r ydym arni ar hyn o bryd. Mae llawer o heriau, ac rwy'n siŵr y bydd mwy yn dod ar ein traws o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, rwy'n hyderus iawn y byddwn yn goresgyn y rhain a byddaf yn falch iawn pan fydd y broses yn gallu symud ymlaen yn gyflymach nag ar hyn o bryd, ac wrth i ni gael y Safonau newydd mae posibilrwydd bydd hynny'n digwydd. Ond mae'r hyn rydym wedi'i wneud ar ychydig gannoedd o gartrefi yn gweithio ac yn gweithio'n dda.

## **13.2. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD JOHN JAMES I'R CYNGHORYDD DARREN PRICE, ARWEINYDD Y CYNGOR**

### **Cwestiwn gan y Cynghorydd James:**

“Mae Deallusrwydd Artiffisial yn dechnoleg drawsnewidiol sy'n cael ei defnyddio ledled y sectorau Preifat a Chyhoeddus yn genedlaethol ac yn fyd-eang ac sy'n chwarae rôl gynyddol a gwell. Daw fy nghwestiwn mewn dwy ran:

Yn gyntaf: Pa gamau mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn eu cymryd ar hyn o bryd ynghylch Deallusrwydd Artiffisial i sicrhau bod y Cyngor hwn yn cadw i fyny â thueddiadau a datblygiadau allweddol ac yn tynnu ar arferion gorau Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Sector Cyhoeddus eraill yn y DU.

Yn ail: Gan edrych at y dyfodol, sut mae'r Cyngor hwn am fanteisio i'r eithaf ar Ddeallusrwydd Artiffisial fel y gellir defnyddio cyfleoedd ac arferion, gan gydnabod hefyd a delio â'r heriau ddaw yn sgil y dechnoleg hon yn ddi-os wrth iddi wella.”

### **Ymateb gan y Cynghorydd Price:**

“Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf, rydym wedi bod yn dilyn datblygiadau ym maes deallusrwydd artiffisial ers peth amser ac mae ein swyddogion yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ac mewn cysylltiad cyson ag arbenigwyr yn y diwydiant, partneriaid sector preifat a chyflenwyr. Rydym hefyd yn ymwneud ag amrywiaeth o fforymau sector cyhoeddus a ffrydiau gwaith, gan weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i ddefnyddio arferion gorau Awdurdodau Lleol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill mewn perthynas â Deallusrwydd Artiffisial.

Mae'r cysylltiadau rydym eisoes wedi'u gwneud a'n presenoldeb yn y Fforymau hyn yn ein helpu i rannu dysgu a nodi'r cyfleoedd mwyaf buddiol i Sir Gaerfyrddin. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth hanfodol am y risgiau a'r heriau posibl sy'n perthyn i ddeallusrwydd artiffisial, gan ein galluogi i baratoi gyda hynny mewn golwg. Er mwyn i ni gofleidio Deallusrwydd Artiffisial go iawn mae angen i ni ddeall yr achos busnes, y gost, y buddion ac ati fesul achos. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn deall effaith debygol y dechnoleg hon ar ein gwasanaethau cyhoeddus, ar breswylwyr, ac wrth gwrs ein gweithlu er mwyn sicrhau ein bod yn mabwysiadu hyn mewn modd moesol a diogel.

Byddwn yn parhau i gymryd y camau angenrheidiol ac i feithrin ein perthynas â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn cadw i fyny â thueddiadau a datblygiadau allweddol ym maes Deallusrwydd Artiffisial. Rydym eisoes yn treialu'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial mewn dwy broses AD ac mae ein Bwrdd Trawsnewid Digidol yn edrych ar adrannau eraill lle gallwn ddefnyddio a dysgu trwy ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial.

Er enghraifft, un o'r prosesau yw cyflwyno bot i'r Adran Adnoddau Dynol yn ddiweddar, ac mae'r bot yn gallu prosesu gwybodaeth 24 awr y dydd ac yn fwy effeithiol na'r broses flaenorol.

Mae arbedion yn amlwg yn ogystal â gwell effeithiolrwydd o ran y broses. Rydym yn monitro hyn fel bod y bobl fonitro yn gweithio gyda'n hadran i ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial i symleiddio ein prosesau rheoli contract yn Adnoddau Dynol. Bydd hyn yn lleihau ein defnydd o staff achlysurol ac yn darparu gwelliannau ar gyfer gwasanaethau gan gynnwys prosesau cyflymu. Wrth gwrs, mae un mater sy'n greiddiol i Ddeallusrwydd Artiffisial, sef a yw'n cymryd swyddi pobl ac yn crebachu'r gweithlu.

Rydym ar daith Deallusrwydd Artiffisial, yn y cam cychwynnol, ac rydym yn gweithio'n agos gydag undebau a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i ni ddatblygu ein defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial yn Sir Gaerfyrddin. Yn wir, mae'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial wedi bod yn bwnc trafod yn ein cyfarfodydd gyda'n cydweithwyr yn yr undebau, ac rydym wedi rhoi sicrwydd na fydd defnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn fygythiad uniongyrchol i benodi staff newydd. Mewn ymateb i ail ran y cwestiwn, mae ein swyddogion ar hyn o bryd yn ysgrifennu datganiad sefyllfa ar Ddeallusrwydd Artiffisial ar gyfer y Cyngor. Bydd y papur yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Trawsnewid yn ystod yr hydref eleni, ac yn ogystal â hynny, mae gwaith yn digwydd ar y funud ar ein strategaeth ddigidol newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin am y blynyddoedd nesaf, hyd at 2027. Bydd y strategaeth ddigidol newydd hon yn canolbwyntio'n sylweddol ar arloesi gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial wrth gwrs, ac am y tro cyntaf byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus gan sicrhau bod trigolion a busnesau yn cael y cyfle i roi eu barn a'u disgwyliadau. Rwy'n gobeithio bod hynny'n rhoi trosolwg i chi."

### **Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd James:**

"Ateb cynhwysfawr a llawn gwybodaeth gan yr Arweinydd sy'n dangos pa mor ddifrifol rydych chi a'r Cyngor Sir yn cymryd y pwnc hwn. A allwch chi drefnu cyflwyniad neu seminar yn y dyfodol agos ar y pwnc pwysig hwn fel ein bod yn dod i wybod mwy amdano ac fel bod gennym wybodaeth i ateb cwestiynau posibl gan bobl. Nid ydym yn gwybod llawer amdano, ac mae rhai pobl yn dweud A1 yn lle AI, cyn lleied yw eu dealltwriaeth hyd yn hyn. Ond mae'n bwysig, mae cynnydd yn digwydd yn y maes hwn ledled y byd, felly mae'n bwysig ein bod ni'n cael y wybodaeth hon hefyd. Pe gallech drefnu seminar neu gyflwyniad i ni ar hyn rywbryd yn y dyfodol."

### **Ymateb gan y Cyngorydd Price:**

"Fel ddywedoch chi, mae hwn yn rhywbeth newydd i ni. Rydw i'n dysgu hefyd. Mae'n rhywbeth sy'n dod yn fwy amlwg i ni fel sector cyhoeddus ac mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn deall beth sydd i ddod a'r heriau a'r risgiau fel y soniais ynglŷn â staffio ac ati. Cawsom drafodaeth ar yr eitem hon fel rhan o'n trosolwg fel Cabinet tua phythefnos yn ôl rwy'n credu, ac mae cryn dipyn o waith yn digwydd yn y maes hwn ar draws y Cyngor. Fel y soniais yn gynharach, wrth i ni ymgynghori ar y strategaeth hon, rydym am sicrhau bod preswylwyr a busnesau yn cyfrannu'n benodol ati oherwydd bod gan y sector preifat rôl hanfodol i ddatblygu'r agenda hon yn y sir."

O ran aelodau mae hynny'n rhywbeth yr ydym wedi ei drafod gyda swyddogion ac rydym yn gweld seminar benodol i aelodau fel rhan bwysig o'r ymgynghoriad hwnnw o ran y strategaeth newydd. Felly, i ateb y cwestiwn, bydd yna seminar a gobeithio gallwn ni weld hynny'n digwydd yn y misoedd nesaf."

#### **14. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar yr agenda dan 14.1 – 14.5 ar gael er gwybodaeth ar wefan y Cyngor.

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**